# Cylchlythyr y Rhwydwaith Gofal Plant Mai 2025

## Ehangu Dechrau'n Deg

Eleni bydd 125 o blant yn ychwanegol yn cael eu gwahodd i fanteisio ar gynnig Gofal Plant Dechrau'n Deg o sesiynau 2.5 awr, dydd Llun i ddydd Gwener, am 39 wythnos o'r flwyddyn. Nod Llywodraeth Cymru yw cyflwyno hyn i bob plentyn 2 oed ledled Cymru. Byddwn yn ysgrifennu at deuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd newydd i'w gwahodd i wneud cais. Mae Torfaen hefyd yn cynnal digwyddiadau yr wythnos hon mewn lleoliadau gofal plant presennol Dechrau'n Deg i rieni gael ymweld a thrafod Dechrau'n Deg yn agored gyda lleoliadau sydd eisoes yn elwa o gynnig Dechrau'n Deg. Os byddwch yn methu'r diwrnodau hyn a hoffech wybod mwy am ddarpariaeth Dechrau'n Deg, cysylltwch â ni.



# Digwyddiad Wythnos Gwarchod Plant

Yn gynharach y mis hwn ac i ddathlu wythnos gwarchod plant, cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus gyda Chwarae Torfaen yn Stadiwm Cwmbrân. Daeth llawer o deuluoedd, a llwyddon ni i siarad â darpar warchodwyr plant.
Roedd yn wych gweld rhai o'n gwarchodwyr plant cofrestredig a'r plant maen nhw'n gofalu amdanynt hefyd.
Rydym yn gobeithio eich bod wedi cael amser braf.








# Cyfleoedd Cyllid a hyfforddi'r Cynnig Gofal Plant i Gymru:

Mae negeseuon at rieni a darparwyr wedi cael eu danfon gan y tîm Cynnig Gofal Plant y mis hwn yn ystod y cyfnod pontio o Borth y Llywodraeth i GOV.UK One Login.
Rydym wedi derbyn cynnydd yn yr ymholiadau gan rieni sy'n dechrau eu lle gofal plant cyn i'w cymhwysedd gael ei dderbyn a chyn i'w cytundeb gyda'u darparwr gofal plant gael ei gwblhau.

Os gwelwch yn dda, a wnewch chi barhau i gynghori rhieni am y broses ymgeisio i sicrhau nad oes unrhyw gostau ychwanegol i deuluoedd sy'n mynychu.
Gan fod hanner tymor y Sulgwyn ar y ffordd, gwnewch yn siŵr os gwelwch yn dda bod y Cytundebau sydd gennych gyda rhieni yn cwmpasu oriau gwyliau os ydyn nhw'n defnyddio'r Cynnig yn y gwyliau.

Rhagor o wybodaeth ar gael yma:
Darparwyr yn rheoli cytundebau Cynnig Gofal Plant Cymru | LLYW.CYMRU
Darparwyr yn hawlio taliadau o Gynnig Gofal Plant Cymru | LLYW.CYMRU
Am help a chyngor cysylltwch â'n llinell gymorth genedlaethol trwy 03000 628 628

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

# Cyfleoedd cyllido a hyfforddi

**Creu ystafell babi ysbrydoledig.**

Mae Community Play Things yn cynnig cwrs ar-lein am ddim gyda'r Dr Mona Sakr: Creating an Inspiring Baby Room Environment.
Mae'r cwrs yn edrych ar sut y gall yr amgylchedd gefnogi datblygiad babanod, gan dynnu ar egwyddorion Reggio Emilia. Mae'n cynnwys camau ymarferol i'ch helpu i wneud gwelliannau syml i ystafell eich baban.
Mae'n cynnwys achrediad DPP, a byddwch chi'n derbyn tystysgrif i'w lawrlwytho pan fyddwch chi'n ei gwblhau. Dechreuwch y cwrs yma

**Grantiau'r Trydydd Sector gan TVA**

Mae TVA, mewn partneriaeth â GAVO a Phartneriaeth Ranbarthol Gwent, yn falch o gyhoeddi bod y Gronfa Integreiddio Ranbarthol (CIRh) ar agor ar gyfer ceisiadau yn Nhorfaen!
Os ydych chi eisiau cael ffurflen gais neu os hoffech ragor o fanylion, cysylltwch â ni nawr! Dyddiad cau - wedi'i ymestyn tan 2il Mehefin 2025! Lawrlwythwch y daflen yma.

**PHyfforddiant Dyletswydd Prevent**

Gellir cyrchu hyfforddiant Prevent ar-lein trwy https://www.support-people-susceptible-to-radicalisation.service.gov.uk/

# Arolwg Cyflwr y Sector Gofal Plant - Dyddiad cau 2il Mehefin 2025

Torfaen
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Byddwn yn cau ein harolwg ar 2il Mehefin i baratoi ar gyfer yr Adroddiad Cynnydd ADGP Blynyddol. Bydd y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi inni yn ein helpu i lunio trosolwg o'r prif faterion y gallai ymarferwyr gofal plant fod yn eu hwynebu yn y 12 mis nesaf.
Anfonwch eich atebion trwy ein harolwg byr yma.
https://forms.office.com/e/sWApn70JAZ
Diolch yn fawr i'r rhai sydd eisoes wedi cwblhau'r arolwg

## Swyddi Gwag ym maes Gofal Plant

Rhowch wybod i ni am eich swyddi gwag fel y gallwn ni eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol a'u hychwanegu at ein gwefan. Tagiwch ni neu anfonwch neges e-bost uniongyrchol i fis@torfaen.gov.uk

## Dolenni ac Adnoddau

The Lullaby Trust

Mae The Lullaby Trust yn bodoli er mwyn cadw babanod yn ddiogel a chefnogi teuluoedd sy'n galaru. Rydyn ni'n gwneud hyn trwy ariannu ymchwil sy'n achub bywydau, grymuso teuluoedd trwy gynnig cyngor arbenigol am ddiogelwch babanod, a chefnogi teuluoedd sy'n galaru trwy eu dyddiau tywyllaf. Mae llawer o wybodaeth ar ein gwefan https://www.lullabytrust.org.uk/

Cyngor am Ddysgu Defnyddio'r Poti

Hyfforddiant i ddefnyddio'r toiled neu'r poti (yn addas o'u hail flwyddyn o fywyd) | LLYW.CYMRU

# Stori Newyddion Da

**Diolch i Little Chums am rannu'r adborth hwn yn dilyn eu hyfforddiant Mathemateg gyda'r tîm Blynyddoedd Cynnar.**

.

Little Chums

Court Farm, Usk Road, Llanvihangel Pontymoile, Pontypool, Torfaen, NP4 0JB • Tel: 01495 767878 • Email: enquiries@littlechums.co.uk

Mae sylfaen gadarn mewn mathemateg yn ymwneud â mwy na dim ond rhifau a siapau; mae'n gonglfaen i feddwl beirniadol, datrys problemau ac arloesi. Gan ddechrau trwy gyfrif at bump fel plentyn at ddeall syniadau cymhleth fel oedolyn, mae sgiliau mathemateg yn trwytho pob agwedd ar ein bywydau. Mae cael sylfaen fathemategol gryf yn ifanc yn galluogi pawb i fod â gallu i ddatrys problemau a gwell meddwl beirniadol.

Yn Little Chums rydym yn credu y dylai mathemateg gael ei hymwreiddio ym mhob man ac ym mhob gweithgaredd, yn uniongyrchol ac mewn ffordd gynnil. O gyfrif blociau i ddeall patrymau, mae profiadau mathemategol cynnar yn gosod y sylfaen ar gyfer dysgu gydol oes a llwyddiant.

Ar ôl profiad da yn Little Chums pan roddodd Torfaen hyfforddiant ADY manwl ac effeithiol i ni ar y safle, pan gawsom ni wedyn y cyfle i fynd i hyfforddiant newydd mathemateg, a ddarparwyd hefyd gan Dorfaen a'u Hathro Ymgynghorol Dechrau'n Deg, achubon ni ar y cyfle i wella'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth ymhellach.

Mae'r hyfforddiant mathemateg wedi bod yn llawn gwybodaeth ac yn gryno hyd yn hyn, ac mae wedi ei gyflwyno mewn ffordd gyfeillgar, hamddenol – rydych yn teimlo fod unrhyw gwestiwn, waeth pa mor ddibwys yw, yn ddilys ac yn bwysig. Mae'r unigolion sy'n rhoi hyfforddiant wedi bod yn hyblyg gyda dyddiadau ac amserau, ystyriaeth allweddol wrth ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ochr yn ochr â gwaith gofal dydd llawn amser. Mae'r adnoddau am ddim wedi bod o ansawdd uchel a byddan nhw'n effeithiol yn ein lleoliad, yn enwedig gan fod awgrymiadau ac enghreifftiau ar gyfer eu defnyddio hefyd wedi eu rhoi.

Mae'r hyfforddiant wedi ategu ein cred fod meithrin cariad at ddysgu mathemateg a rhifedd yn gynnar yn gallu grymuso plant i fod yn fathemategwyr hyderus a llwyddiannus.

Mae ein profiad cadarnhaol o ddigwyddiadau hyfforddiant Torfaen wedi rhoi hyder i ni fynd i ddigwyddiadau yn y dyfodol; rydym eisoes wedi argymell yr hyfforddiant i aelodau eraill o'r staff ac wedi bwcio sesiynau ychwanegol.